

CYLCHLYTHYR IECHYD RHYNGWLADOL

RHIFYN 7: Gorffennaf 2025

Yr Athro Liz Green yn Arwain Cynhadledd AEI ym Madrid



Roedd y cyfarfod Asesiad o'r Effaith Iechyd (HIA) a gynhaliwyd dros ddeuddydd ym mis Mehefin ym Madrid yn llwyddiant mawr i'r Athro Liz Green o Iechyd Cyhoeddus Cymru. Cyd-drefnodd a chyd-gadeiriodd y digwyddiad gyda phartneriaid o Gymdeithas Iechyd y Cyhoedd Ewrop (EUPHA) a Gweinyddiaeth Iechyd Sbaen.

Canolbwyntiodd y digwyddiad ar sefydliadoli Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd gyda sgysiau yn cwmpasu amrywiaeth eang o bynciau cysylltiedig. Roedd y cyflwyniadau a'r trafodaethau dan arweiniad panel yn cynnwys teitlau fel Defnyddio Rhagwelediad mewn Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd; Dulliau Meintiol ac Ansoddol o Ymdrin â Thystiolaeth a Data; a Sut i Ddefnyddio Mekanweithiau Cyfreithiol ar gyfer Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd.

Arweiniodd Liz ar Adeiladu Capasiti a Hyfforddiant ar gyfer Cymhwysedd i gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd: Profiad Cymru. Cyflwynodd Kathryn Ashton, ei chydweithiwr yn Iechyd Cyhoeddus Cymru, gyflwyniad ar Ddefnyddio Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd mewn Ymyriadau Diogelu Iechyd y Cyhoedd. Siaradodd Nicola Evans, Llywodraeth Cymru, ar Ddatblygu Rheoliadau HIA. Tynnodd cymheiriaid o bob rhanbarth o Sbaen sylw at y gwaith HIA aruthrol sy'n cael ei wneud ar draws y wlad.

Roedd tri deg o wledydd Ewropeaidd wedi'u cynrychioli ymhlith y cynadleddwyr. Roedd 70 ohonynt yn bresennol wyneb yn wyneb, ac ymunodd 637 arall drwy'r ffrwd fyw.

Diolchodd Liz yn arbennig i adran HIA EUPHA, Piedad Martin-Olmedo, y Llywydd ac Odile Mekel, yr Is-lywydd, a holl aelodau'r pwyllgor llywio, a gefnogodd y digwyddiad.

Diana De yng Ngarddwest y Brenin

Ar ôl cael ei henwebu gan yr Adran Addysg i gydnabod ei gwaith yn rhannu gwybodaeth am anemia, clefyd y crymangelloedd a thalasaemia byd-eang, gwahoddwyd Diana De (Darllenydd, ym Mhrifysgol Caerdydd) sy'n aelod o'r Grŵp Gweithgarwch Iechyd Rhyngwladol (GIG Cymru) i ddathlu ei chyfraniad yng Ngarddwest y Brenin ym Mhalas Buckingham.

Ym mis Medi, bydd Diana yn mynd gydag arbenigwyr o Gymdeithas Haematoleg Prydain i weithredu addysgu clwstwr i nyrsys a bydwagedd yn Zambia.



Myfyrwyr Nyrsio o Gymru a Japan yn Cwrdd mewn Ystafell Ddosbarth RR

Mewn newyddion arall yn ymwneud â Phrifysgol Caerdydd, gwisgodd myfyrwyr nyrsio ail flwyddyn glustffonau VR ym mis Mai i gwrdd â myfyrwyr nyrsio o Sefydliad y Gwyddorau, Tokyo mewn amgylchedd VR wedi'i gynllunio'n bwrpasol. Dysgodd y myfyrwyr am ddiwylliant, gofal iechyd ac iaith ei gilydd. Cynhaliwyd yr holl drafodaethau mewn amser real.

Dyma fideo (Saesneg yn unig) byr sy'n dangos rhai o'r uchafbwyntiau allweddol. Mae Diana yn gobeithio y bydd y math hwn o ymgysylltu byd-eang yn cael ei ymgorffori yn y modiwl Iechyd Byd-eang ar gyfer 25/26. Bydd y cynllun peilot hwn hefyd yn cael ei ledaenu'n ehangach, fel rhan o welliant addysgol ac addysgu arloesol.

LANSIAD NEWYDD: Adroddiad Cynnydd y CRCI 2022-2024


Mae'r Adroddiad Cynnydd diweddaraf hwn ar y Ganolfan Ryngwladol Cydlynw Iechyd (IHCC) sy'n cwmpasu 2022-2024 yn dangos ei bod yn parhau i godi proffil gweithgarwch iechyd rhyngwladol yng Nghymru, ac yn tynnu sylw at gyflawniadau, dysgu ar y cyd, a manteision partneriaethau rhyngwladol dros y ddwy flynedd flaenorol.

Mae'r enghreifftiau o weithgarwch Iechyd Rhyngwladol yn dangos sut y gellir goresgyn heriau wrth gyflawni prosiectau, a manteision gweithio rhyngwladol gyda dysgu ar y cyd ac arferion gorau a ddatblygwyd o'r cysylltiadau hyn.

Dywedodd yr Athro Liz Green, Arweinydd Ymgynghorol yr IHCC a Chyfarwyddwr Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru:

"Mae'r IHCC yn falch iawn i greu rhagor o gyfleoedd ar gyfer cydweithio rhyngwladol a dysgu ar y cyd yng Nghymru. Mae canlyniadau'r adroddiad hwn yn dangos effaith y gwersi hyn i Gymru ac i'n partneriaid rhyngwladol.

"Mae'r meysydd yr ydym yn bwriadu eu datblygu yn ystod y ddwy flynedd nesaf yn cynnwys cefnogi dull strategol cydgysylltiedig, ehangu'r Siarter ar gyfer Partneriaethau Iechyd Rhyngwladol a datblygu'r strategaeth Iechyd Rhyngwladol yn Iechyd Cyhoeddus Cymru."



Er Cof Am: Claire O'Shea

Mae'r gymuned iechyd ryngwladol yn galaru ar ôl marwolaeth Claire O'Shea, pennaeth Hub Cymru Africa. Bu farw'n dawel yn ei chartref ar 12 Mai 2025 wedi'i hamgylchynu gan ei theulu.

Roedd Claire yn adnabyddus fel arweinydd cymdeithas sifil angerddol ac ymgyrchydd dros gyfiawnder cymdeithasol. Cafodd effaith ddofn. Cysegrodd ei bywyd i wneud y byd yn lle gwell ym maes addysg ac iechyd, unigrwydd, cynhwysiant a chyfiawnder byd-eang. Ymunodd Claire â Hub Cymru Africa yn 2019, roedd yn arweinydd mewn undod byd-eang a datblygu rhyngwladol.

Yn eiriolwr llafar dros bwysigrwydd helpu'r rhai mewn angen, heb ystyried ffiniau, ni leihaodd ei hangerdd dros undod byd-eang erioed, hyd yn oed wrth i'w hiechyd ei hun ddirywio.

Mae pawb yn Hub Cymru Africa, y sector ehangach a thu hwnt wedi torri eu calonnau gan y golled, ond bydd gwaddol Claire mewn undod byd-eang yn parhau i gael ei deimlo am flynyddoedd i ddod. Mae'n ddyletswydd arnom i barhau â'i gwaith, i eiriol dros newid, mynnu cyfiawnder a chreu byd mwy cyfartal.



Ecwiti lechyd a Thynnu Cymorth yn Ôl yn Nigeria

Rhoddodd Dr Stanley Ukpai gyflwyniad yng nghyfarfod cyfarwyddiaeth Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd, Iechyd Cyhoeddus Cymru ym mis Ebrill. Trafododd Dr Ukpai effaith tynnu cymorth yn ôl i Nigeria a'r effaith bosibl ar ei system iechyd.

O ystyried y gyfradd marwolaethau malaria uchaf yn y byd (WHO, 2023) a chymhareb marwolaethau ymysg mamau o 917 fesul 100,000 o enedigaethau byw (Unicef, 2020), gallai gostyngiadau mewn cymorth dadwneud degawdau o gynnydd.

Ar hyn o bryd, dim ond 4.1% o'i chyllideb genedlaethol y mae Nigeria yn ei dyrannu i ofal iechyd. Mae hyn yn is na'r targed o 15% a osodwyd gan Ddatganiad Abuja. Mae cymorth rhyngwladol wedi chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi rhaglenni iechyd sydd wedi llwyddo i leihau nifer yr achosion o HIV/AIDS i 1.4% (Unaid, 2023) ac wedi lleihau marwolaethau o falaria 20% er 2010.



Dadleuodd Dr Ukpai fod yn rhaid i systemau iechyd cynaliadwy dynnu ar ddyfeisgarwch lleol ac ewyllys ar y cyd, ennill cefnogaeth i'w hymdrechion, hyrwyddo dosbarthu adnoddau domestig yn gyfartal, a meithrin ymrwymiad ar y cyd i iechyd fel hawl gyffredinol.

Mae cydweithio yn allweddol ar gyfer y daith o'n blaenau, yn benodol, mae Sefydliadau Anllywodraethol (NGOs) yn chwarae rhan hanfodol wrth hyrwyddo atebolrwydd a meithrin partneriaethau. Un sefydliad o'r fath yw'r Ganolfan Ymchwil a Phrosiectau Datblygu (Saesneg yn unig), corff anllywodraethol yn Nigeria sy'n cael ei yrru gan genhadaeth, ac sy'n ymroddedig i fynd i'r afael â heriau datblygu a dyngarol sy'n dod i'r amlwg a rhai brys, yn cynnwys heriau iechyd.

Os hoffech gael copi o'r cyflwyniad neu ddysgu rhagor, cysylltwch â Dr.Ukpai trwy anfon neges i: s.ukpai@drpcngr.org

Effaith Gwrthdaro ar Iechyd y Cyhoedd: Profiad Syria

Nid oes amheuaeth bod gwrthdaro yn parhysu sectorau iechyd y cyhoedd ac yn gadael creithiau sy'n cymryd blynyddoedd i wella. Profiad Syria yw'r enghraifft orau o hyn yn yr oes fodern. Gadawodd y rhyfel a barhaodd am 14 mlynedd, mwy na miliwn o bobl wedi marw a miliynau wedi'u hanafu ac ar goll.

Arweiniodd ataliad y chwyldro poblogaidd a dorrodd allan yn ei herbyn yn 2011 gan gyfundrefn Syria at gwmp y seilwaith a'r system iechyd. Cafodd y rhan fwyaf o ysbytai a chanolfannau iechyd eu dinistrio a chafodd gweithwyr gofal iechyd eu targedu'n fwriadol (Fouad et al., 2017). Roedd hefyd prinder meddyginiaethau sylfaenol. Arweiniodd y mynediad cyfyngedig hwn at ofal iechyd at ledaeniad epidemigau a chlefydau, yn enwedig mewn carchardai a chanolfannau cadw oedd heb fynediad at hanfodion sylfaenol bywyd hyd yn oed.



O ran yr effaith ar faeth, mae gweithrediadau milwrol wedi arwain at ddinistrio ardaloedd helaeth o dir amaethyddol, cnydau a choedwigoedd. Ar ben y gwarchae a'r polisi newynu bwriadol a orfodwyd gan y gyfundrefn o amgylch dinasoedd a ddelid gan y gwrthbleidiau. Yn 2016, roedd mwy na 40,000 o sifiliaid dan warchae yn ninas Madaya (Parsons, Fallon a Kieval, 2016), lle cawsant eu gorfodi i fwyta anifeiliaid a dail i oroesi.

Mae hinsawdd yn agwedd bwysig ar iechyd y cyhoedd. Ers blynyddoedd, mae defnyddio awyrennau rhyfel, tanciau a thaflegrau wedi arwain at lefelau hynod beryglus o lygredd (Jaafar a Rodríguez-Seijo, 2025) ar draws y rhanbarth cyfan. Yn ystod haf 2013, defnyddiodd lluoedd y llywodraeth arfau cemegol a waharddwyd yn rhyngwladol i fomio cefn gwlad Damascus gan ladd mwy na 1,300 o sifiliaid a gafodd eu mygu tra'r oeddent yn cysgu (BBC, 2013), plant oedd y rhan fwyaf ohonynt.

Roedd effaith y rhyfel hwn yn lleol ac yn fyd-eang. Arweiniodd at allforio miliynau o ffoaduriaid i wledydd cyfagos, gyda rhai yn cyrraedd Ewrop hyd yn oed, yn enwedig yr Almaen, sy'n gartref i fwy na miliwn o ffoaduriaid o Syria! Yn ogystal â'r effaith ar iechyd meddwl a nifer yr achosion o iselder ac anhwylder straen ôl-drawmatig ymhlith Syriaid (Peconga a Høgh Thøgersen, 2019).

Er bod y rhyfel bron wedi dod i ben, fis Rhagfyr diwethaf, mae ei effeithiau angen blynyddoedd lawer o driniaeth.

Lansiodd "Médecins Sans Frontières" y fenter clinigau symudol ar 21 Ionawr i ddarparu gofal meddygol fel ymgynghoriadau meddygol a chymorth iechyd meddwl i boblogaethau sy'n wynebu prinder difrifol o wasanaethau iechyd. Llwyddodd y sefydliad i weld 576 o gleifion yn 2025.

Mae clinig symudol yn ddatrysiad cyflym a delfrydol mewn gwlad sy'n llawn dinistr ac sydd heb gyfleusterau iechyd, ac mae'n ceisio ehangu cwrmpas ei wasanaethau i ddiwallu anghenion cynyddol y boblogaeth.

Malek Mhd Al Dali, Prifysgol Bangor

9^{fed} Uwchgynhadledd Iechyd y DU-Affrica: Datrysiadau a Rennir ar gyfer Iechyd i Bawb

Cynhaliwyd 9^{fed} Uwchgynhadledd Iechyd y DU-Affrica, a drefnwyd gan Bartneriaethau Iechyd Byd-eang (GHP, a elwid gynt yn Ymddiriedolaeth Addysg Iechyd Trofannol (THET)) ar 18 a 19 Mawrth, ar adeg hollbwysig yn y dirwedd iechyd ryngwladol.

Roedd yr uwchgynhadledd hon, gyda naratif byd-eang sy'n newid a chefnidir o ddatgysylltiad ariannol, yn nodi moment hanfodol i wledydd yn y Gogledd Byd-eang a'r Mwyafrif Byd-eang ail-werthuso eu hymrwymiaidau i bartneriaethau iechyd teg ac effeithiol.



Roedd y rhai a oedd yn bresennol yn cynnwys:

- Swyddogion y Llywodraeth
- Llunwyr polisi
- Y Byd Academaidd
- Sefydliadau Ymchwil
- Sefydliadau Di-elw

Dywedodd Ben Simms, Prif Swyddog Gweithredol GHP, fod yr Uwchgynhadledd hon yn amser i gydnabod mentrau sydd wedi cyfrannu at lunio canlyniadau iechyd yn y DU a gwledydd Affrica, meithrin gobaith, trafod datrysiadau ac "i ddathlu'r bobl rydyn ni'n dysgu ganddyn nhw".

TY naratif sy'n datblygu o amgylch partneriaethau iechyd rhyngwladol (IHPs) a'r symudiad tuag at fodel partneriaeth ddwyffordd a ddangosir gan gysyniadau fel arloesi gwrthdro ac sy'n pwysleisio dysgu cydfuddiannol a manteision a rennir rhwng y DU a gwledydd partner. Mae'n arwydd o ddull ehangach, mwy cynhwysol a chydweithredol o gyd-ddatblygu, cyfnewid gwytodaeth ac atebolrwydd cydfuddiannol.

Rhagwelir y bydd gwariant ar ddatblygu byd-eang yn lleihau 35% yn y blynyddoedd i ddod. Mae gwledydd incwm isel a chanolig (LMICs) yn parhau i wynebu cyllid iechyd gwael, sy'n arwain at systemau iechyd bregus, cynlluniau yswiriant iechyd annigonol, a dibyniaeth fawr ar gyllid allanol. Mae gan y cyfyngiadau ariannol hyn oblygiadau dwys ar gyfer dangosyddion iechyd hanfodol, yn cynnwys HIV/AIDS, malaria, marwolaethau mamau a babanod, a chynnydd cyffredinol tuag at gyflawni'r Nodau Datblygu Cynaliadwy (SDGs) ar y cyd erbyn 2030.

Yn ogystal, mae'n debygol y bydd systemau iechyd gwledydd incwm isel a chanolig yn profi dirywiad sylweddol yng nghapasiti'r gweithlu gofal iechyd, wedi'i yrru gan lai o gymorth rhyngwladol a mwy o weithwyr iechyd proffesiynol yn mudo i wledydd incwm uwch. Er gwaethaf yr heriau hyn, mae IHPs wedi dangos gwerth sylweddol.

Maent yn:

- Mynd i'r afael â blaenoriaethau iechyd domestig a byd-eang
- Cryfhau systemau a gweithluoedd iechyd cynaliadwy a gwydn
- Gwella mynediad cyfartal at ofal iechyd
- Datblygu perthnasoedd hirhoedlog rhwng sefydliadau

Cadarnhaodd 9^{fed} Uwchgynhadledd Iechyd y DU-Affrica bwysigrwydd datrysiadau a phartneriaethau a rennir wrth sicrhau iechyd i bawb. Mewn byd o flaenoriaethau sy'n newid a datgysylltiad ariannol, mae meithrin cydweithio sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth, cydgyfnewidiaeth a chyd-greu yn bwysicach nag erioed. Mae gwledydd incwm isel a chanolig hefyd yn archwilio ffyrdd o daro cydbwysedd rhwng hunandibyniaeth a phartneriaethau strategol.

Mae'r DU, gyda chymorth ymchwil gyda GHP, wedi bod yn archwilio ymgysylltiad ei gweithwyr iechyd diaspora sydd yn aml â dealltwriaeth gyd-destunol a chymhwysedd diwylliannol. Mae hyn wedi llywio ymchwil barhaus yn cynnwys Adroddiad Arbenigwyr yn Ein Plith GHP ac Astudiaeth Gwella Ymgysylltu â Diaspora ar gyfer Cryfhau'r Gweithlu Iechyd a Systemau Iechyd yn Kenya, Ghana, a'r DU (Saesneg yn unig).

Zuwaira Hashim, Iechyd Cyhoeddus Cymru



Dinasyddiaeth Fyd-eang

Cymru sy'n Gyfrifol ar lefel Fyd-eang



Yng Nghymru, mae Dinasyddiaeth Fyd-eang yn ddangosydd nod llesiant sy'n gyfrifol yn fyd-eang fel rhan o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae'r Cenhedloedd Unedig

yn egluro mai 'Dinasyddiaeth Fyd-eang' yw'r term cyffredinol am weithredoedd cymdeithasol, gwleidyddol, amgylcheddol ac economaidd unigolion a chymunedau byd-eang ar raddfa fyd-eang... Mae dinasyddiaeth fyd-eang wedi'i gwreiddio yn y Nodau Datblygu Cynaliadwy drwy SDG 4 – Addysg o Ansawdd'



Gwerthoedd



Mae Dinasyddiaeth Fyd-eang yn

- Bod materion byd-eang yn faterion lleol
- Gwerthfawrogi gwahanol ddwyfylliannau a hunaniaeth
- Ffyrdd o sicrhau bod lechyd yn hawl i bawb
- Effeithiau anghydraddoldebau yng Nghymru a'r byd
- Effeithiau globaleiddio a chyd-dibyniaeth
- Effaith newidiadau hinsawdd, gwrthdaro a thrychinebau naturiol
- Parchu a gwerthfawrogi amrywiaeth

Ein Modiwl



Global Citizenship

What words/phrases come to mind when you think of global citizenship?



Adnoddau Ychwanegol:

Beth sydd angen i chi ei wybod am addysg dinasyddiaeth fyd-eang | UNESCO
Beth yw Dinasyddiaeth Fyd-eang? - Adnoddau addysg | Oxfam GB
Astudiaethau Achos Dinasyddiaeth Fyd-eang | Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru
Adeiladu Cymru o Ddinasyddion Byd-eang Gweithredol | Sefydliad Materion Cymreig

Beth allwch chi ei wneud?

- Herio ystrydebau
- Cwestiynu safbwyntiau
- Ymgysylltu'n weithredol â'ch cymuned a'r byd - gall sut rydych chi'n pleidleisio, yn gweithio, yn siopa, yn teithio ac yn ymgyrchu i gyd wneud gwahaniaeth

[Dysgu.gig.cymru](https://dysgu.gig.cymru)

chwilio am ' Rhaglen Dinasyddion Byd-eang'



Galwad am Ymchwil Newydd gan Horizon Europe

Mae rhaglen ymchwil ac arloesi'r UE ar gyfer 2021-2027, [Horizon Europe](#) (Saesneg yn Unig), wedi rhyddhau gwybodaeth yn galw am ymchwil newydd. Mae'r galwadau hyn yn ymdrin a gwahanol glystyrau o Raglen Waith 2025 (iechyd, diwylliant, yr amgylchedd a'r Cenedlaethau), yn ogystal â galwadau drafft gan glwstwr iechyd Rhaglen Waith 2026-2027. Edrychwch ar y [sleidiau canlynol](#) (Saesneg yn Unig) sydd wedi'u cyflwyno gan EuroHealthNet am ragor o wybodaeth.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os oes gennych ddiddordeb mewn cydweithio ar un o'r galwadau hyn, cysylltwch ag [Alba Godfrey](#).

Digwyddiadau a Chynadleddau i Ddod

Cynhadledd Partneriaethau Iechyd Byd-eang Cymru 2025

Digwyddiad wyneb yn wyneb Dydd Llun 8 Medi, 2025

Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2 Capital Quarter, Stryd Tyndall, Caerdydd CF10 4BZ

Cyfres Gweminarau Cynhadledd Iechyd y Cyhoedd Ewrop

(Saesneg yn unig)

Ail Gynhadledd y Byd ar Ymfudo,

Ethnigrwydd, Hil ac Iechyd

2 - 5 Medi 2025 (Saesneg yn unig)

Canllawiau Rhaglenni Rhyngwladol: Arloesi a Phartneriaethau ar gyfer Iechyd ym mhob Polisi

16 - 19 Medi 2025 (Saesneg yn unig)

Cynhadledd Fforwm Ewropeaidd ar gyfer

Gofal Sylfaenol

7 - 9 Medi 2025 (Saesneg yn unig)

Cynhadledd Fyd-eang 2025 ar Hinsawdd ac Iechyd

29 - 31 Gorffennaf 2025

Canolfan Gonfensiynau Rhyngwladol Brasil, Brasilia (wyneb yn
wyneb), Brasil (Saesneg yn unig)



Cysylltu â Ni

**Os oes gennych unrhyw straeon neu
brosiectau rhyngwladol yr hoffech iddynt
gael sylw yn ein cylchlythyrau sydd ar
ddod, anfonwch e-bost at:**

Laura.holt@wales.nhs.uk

Joanne.Harrington2@wales.nhs.uk